

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Y Gweinidog Cyllid

Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

10 Tachwedd 2020

Annwyl Weinidogion / Ddirprwy Weinidogion

### **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22**

Cyn ein gwaith craffu ar y Gyllideb ar ddechrau 2021, byddem yn ddiolchgar o gael papur ar y dyraniadau yn eich portffolios, yn seiliedig ar egwyddorion craffu ariannol y Pwyllgor Cyllid y cytunwyd arnynt, sef:

- **Fforddiadwyedd** - edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol rhyngddynt;
- **Blaenoriaethu** - a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau;
- **Gwerth am arian** - Yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda - darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (h.y. canlyniadau); a
- **Phrosesau'r gyllideb** - a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol.

Mae gan y Pwyllgor Cyllid ddiddordeb yn y meysydd a ganlyn hefyd:

- Sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu.
- I ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd.
- Polisiâu Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ [SeneddCymunedau@senedd.cymru](mailto:SeneddCymunedau@senedd.cymru)

☎ 0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ [SeneddCommunities@senedd.wales](mailto:SeneddCommunities@senedd.wales)

☎ 0300 200 6565

- Dull gweithredu o ran gwario ataliol a sut y caiff hwn ei gynrychioli wrth ddyrannu adnoddau;
- Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a gweddnewid gwasanaethau;
- Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb;
- Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca.
- Cefnogaeth i fusnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl i'r cyfnod pontio Ewropeaidd ddod i ben;
- Beth yw'r cyfleoedd allweddol i fuddsoddiad y Llywodraeth gefnogi 'Ailgodi'n gryfach'

Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech roi rhagor o fanylion inni am y meysydd hyn fel y maent yn berthnasol i'ch portffolios.

Hoffem pe baech yn darparu gwybodaeth fanwl inni am y dyraniadau cyllideb ar gyfer:

- Llywodraeth Leol
- Tai ac Adfywio
- Cydraddoldebau; a
- Mynd i'r Afael â Thlodi (gan gynnwys Llesiant).

Wrth ddarparu'r wybodaeth hon, a allwch ddarparu gwybodaeth am sut mae'r Aseiad Effaith Integredig Strategol wedi cyfrannu at, a llywio penderfyniadau cyllidebol, gan gynnwys enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol ac effeithiau negyddol penderfyniadau cyllidebol.

Rydym yn deall y bydd y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar y gyllideb eleni, felly a allwch amlinellu sut mae'r angen i dargedu cefnogaeth at y rhai y mae'r pandemig yn effeithio arnynt yn fwyaf niweidiol wedi llywio'r dyraniadau?

A allwch hefyd ddarparu enghreifftiau o wariant ataliol ar gyfer pob un o'r meysydd polisi uchod?


Hoffem hefyd weld sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dylanwadu ar eich dyraniadau cyllideb, a chyda manylion ar ddyraniadau penodol.

Byddem hefyd yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r argymhellion a ddeilliodd o'r gwaith ar y cyd a wnaethom gyda'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cael eu gweithredu.



Byddem yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth hon cyn gynted â phosibl ar ôl i'r gyllideb gael ei chyhoeddi, ond fan bellaf gofynnwn amdani erbyn 8 Ionawr 2021.

Yn gywir



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

